

Adolygiad Ôl-Arolygiad yr Arolygiad Amddiffyn Plant Cenedlaethol

**Heddlu Gwent
13–17 Ionawr 2020**

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Adolygiad 2019 a gynhaliwyd gan HMICFRS	1
Yr adolygiad ar ôl yr arolygiad gan HMICFRS 2020	2
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Cyswllt cychwynnol	5
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Asesiad a help	7
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Ymchwiliad	13
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Gwneud penderfyniadau	17
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Rheoli'r rhai sy'n peri risg i blant	19
Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Cadw gan yr heddlu	21
Camau nesaf	24

Cyflwyniad

Adolygiad 2019 a gynhaliwyd gan HMICFRS

Ym mis Chwefror 2019, arolygodd Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) pa mor dda y mae Heddlu Gwent yn cadw plant o dan 18 oed yn ddiogel.

Ym mis Mehefin 2019, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ein canfyddiadau. Daeth hyn i'r casgliad bod y prif gwnstabl ar y pryd, ei uwch dîm a'r comisiynydd heddlu a throseddu (CSP) yn amlwg wedi ymrwymo i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Dangoswyd hyn yng nghynllun heddlu a throseddu'r CHTh a blaenoriaethau'r llw.

Gwelsom dystiolaeth gref fod uwch swyddogion yn gweithio i wella sut mae'r llw'n rheoli'r risgiau i blant, ac i fodloni'r cynnydd parhaus yn y galw am amddiffyn plant. Er enghraifft, roedd y llw'n bwriadu ychwanegu 30 yn fwy o ymchwilyr i'w uned amddiffyn y cyhoedd (PPU). Byddai'r uned hefyd yn cael ei hailstrwythuro fel y gallai ymdopi â'r galw.

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom enghreifftiau o waith da gan swyddogion rheng flaen wrth ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â phlant. Roedd swyddogion a staff y gwnaethom siarad â nhw sy'n rheoli ymchwiliadau amddiffyn plant yn ymrwymedig ac yn ymroddedig. Maent yn aml yn gweithio mewn amgylchiadau anodd a heriol.

Mae Heddlu Gwent wedi rhoi llawer o amser ac egni i ddiogelu iechyd a lles ei swyddogion a'i staff.

Dywedodd asiantaethau partner megis gwasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdodau lleol ac aelodau'r bwrdd diogelu plant lleol wrthym fod trefniadau gweithio ar y cyd yn gryf ac yn effeithiol. Er i ni ganfod bod angen datblygu rhai trefniadau gweithio ar y cyd ymhellach, roedd hwn yn adborth cadarnhaol i'r llw.

Amlygodd yr archwiliadau achos a oedd yn rhan o'n harolygiad yr angen i wella rhai o ymatebion y llw i blant sydd angen help ac amddiffyniad. Mae'n amlwg bod uwch arweinwyr wedi ymrwymo i'r polisi hwn. Fodd bynnag, nid oedd penderfyniadau a wnaed ynghylch plant mewn perygl yn gyson well o ganlyniad.

Roedd meysydd penodol i'w gwella'n cynnwys:

- sicrhau bod swyddogion yn cymryd yr amser i siarad â phlant i ddeall eu profiadau;
- y ffordd y gwnaeth y llw gofnodi, asesu a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner;
- sut y cofnodwyd gwybodaeth ar systemau'r heddlu;

- yr arferion a ddefnyddir wrth reoli'r rhai sy'n peri risg i blant; a
- thriniaeth plant sy'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu.

Yn ogystal, gwelsom feysydd ymarfer cryf. Roedd hyn yn amlwg yn:

- y pwynt cyswllt cyntaf (FPOC) gyda'r llw trwy'r ystafell gyfathrebu;
- yr ystafell reoli, lle'r oedd y rhai sy'n derbyn galwadau ac anfonwyr yn dda o ran nodi risg, diolch i'r ffordd yr oedd yr ystafell reoli'n gweithredu;
- ymchwiliadau ar y cyd i gam-drin, gan gynnwys cam-drin ar-lein, a oedd o safon dda wedi cael eu cwblhau gan swyddogion arbenigol; ac
- yr hyfforddiant a roddwyd i swyddogion a staff, a oedd yn dda.

Yr adolygiad ar ôl yr arolygiad gan HMICFRS 2020

Ym mis Awst 2019, dangosodd y llw ei gynllun gweithredu i ni ar gyfer ymateb i'n hargymhellion. Ers hynny, rydym wedi parhau i fonitro ei weithgarwch gwella. Ym mis Ionawr 2020, gwnaethom gynnal adolygiad ar ôl yr arolygiad i asesu ei gynnydd.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys:

- archwiliad o bolisiâu, strategaethau a dogfennau eraill y llw;
- cyfweiliadau â swyddogion a staff; ac
- archwiliad o 43 o achosion amddiffyn plant, yn ymwneud yn benodol â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad arolygu 2019.

Crynodeb o ganfyddiadau adolygiad ar ôl yr arolygiad 2020

Ers ein harolygiad ym mis Chwefror 2019, mae'r llw wedi gweithio'n galed i wella ei arfer diogelu a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Mae wedi gweithio gyda'i asiantaethau partner diogelu ac wedi adolygu ei systemau, ei weithdrefnau a'i brosesau. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn hyfforddi ymchwilwyr a staff rheng flaen.

Yn 2019, ar ôl cydnabod y gofynion cynyddol ar ei PPU, fe wnaeth y llw ymrwymo i ailstrwythuro ei dimau ymchwilio a chynyddu ei staff PPU gyda 30 o ymchwilwyr. Fodd bynnag, nid yw swyddogion i lenwi'r swyddi ychwanegol hyn yn eu lle eto. Mae hyn oherwydd na ellir eu rhyddhau o rolau eraill i ddod yn ymchwilwyr dan hyfforddiant nes bod recriwtiaid newydd wedi cwblhau eu hyfforddiant. Yn ogystal, nid yw recriwtio uniongyrchol cynllunedig i rolau ditectif wedi digwydd eto.

Oherwydd yr oedi hir hwn i'r ailstrwythuro arfaethedig, mae swyddogion sy'n ymchwilio i gam-drin plant yn delio â llwythi gwaith uwch nag yr hoffai'r llw. Yn PPU y Gorllewin, mae swyddogion yn disgrifio bod eu llwythi gwaith wedi dyblu ers cytuno ar y lefelau staffio cyfredol.

Mae angen i'r llw sicrhau iddo ei hun bod ganddo broses adolygu i asesu effaith unrhyw oedi neu newidiadau pellach i'r cynllun y cytunwyd arno.

Fodd bynnag, o fewn y strwythur presennol, mae'r llw wedi cynnal lefelau staffio. Ac mae wedi gallu ategu tîm Operation Quartz [Ymgyrch Cwartz], sy'n ymchwilio i gamfanteisio, yn ardal y Dwyrain.

Mae'r llu'n parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi swyddogion a staff arbenigol. Mae bron pob ymchwilydd PPU wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar gam-drin plant ac eithrio'r rhai sy'n newydd i'w rolau. Mae gan y llu oruchwyliaeth dda o'r angen hyfforddi hwn ac mae 12 lle ar gael yn 2020.

Mae'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd yn brosiect cenedlaethol a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Mae'n ceisio atebion i fynd i'r afael â'r diffyg ymyrraeth gynnar a gweithgareddau ataliol pan fydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn amlwg. Trwy'r rhaglen hon, mae'r llu wedi hyfforddi 1,100 o swyddogion a staff rheng flaen, dalfa ac ystafell reoli mewn ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r hyfforddiant yn annog i'w harfer gael ei lywio gan ddatguddiad plant i drawma.

Nod gweithdai ychwanegol i swyddogion a staff ar gyflwyno gwell hysbysiadau gwarchod y cyhoedd (PPNs) yw gwella ansawdd y wybodaeth a rennir â gofal cymdeithasol plant. Mae hyn wedi cynhyrchu gwelliannau, ond mae angen rhagor o waith i wella cysondeb.

Mae'r cynllun i benodi hyfforddwr bregusrwydd pwrpasol ym mis Ebrill 2020 yn dangos penderfyniad y llu i adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud.

Mae menter ddiddorol a ariannwyd gan y CHTH wedi arwain at bresenoldeb gweithiwr cymdeithasol yn yr ystafell reoli. Mae'r gweithiwr yn rhoi mynediad prydlon i wybodaeth a chanllawiau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol i staff sy'n delio â phlant sy'n agored i niwed. Cyflwynwyd hwn yn ddiweddar ar adeg ein hymweliad, felly roedd yn rhy fuan i asesu ei effaith, ond mae'n cynnig cyfleoedd sylweddol i'r llu ac o bosibl i'r Gwasanaeth.

Yn ystod ein harolygiad yn 2019, gwelsom fod y llu wedi dechrau adolygu ansawdd ei arferion yn ddiweddar mewn rhai ymchwiliadau. Fodd bynnag, roedd hyn yn canolbwyntio ar hyd a chanlyniadau ymchwiliadau, megis a gyhuddwyd troseddwyd ai peidio, ac os felly, pryd y'u cyhuddwyd. Nid oedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau i blant a safonau arferion diogelu, megis a oedd ymchwiliadau wedi canolbwyntio ar anghenion plant.

Yn ein hailymweliad, roedd yn ein calonogi i weld bod pennaeth diogelu'r cyhoedd wedi cyflwyno adolygiadau arferion mwy ansoddol. Mae hyn yn dechrau rhoi gwell goruchwyliaeth ar safonau i uwch arweinwyr ac mae wedi nodi rhai meysydd i'w gwella. Mae hefyd wedi dangos bod gan y llu fwy i'w wneud o hyd i ddeall ei berfformiad yn well.

Mae hwn yn arloesiad newydd y mae angen iddo ganfod ei le ochr yn ochr â gweithgarwch archwilio arall, megis yr un yn ystafell y ddalfa ac ystafell reoli'r llu. Mae angen i'r llu hefyd ystyried sut i sicrhau cysondeb yn ei swyddogaeth archwilio, sut y gellir dod â chanfyddiadau ynghyd i nodi themâu, a sut y gall fesur gwelliant.

Mae angen gwelliannau o hyd mewn rhai meysydd o arferion amddiffyn plant, megis ymchwiliadau gan staff nad ydynt yn arbenigol, ac ymateb y llu pan fydd plant yn mynd ar goll.

Yn ystod ein hailymweliad, gwnaethom archwilio gwaith y llu mewn 43 o ffeiliau achos. Gwnaethom asesu bod ei arferion yn dda mewn 15 achos, bod angen gwella mewn 19, ac yn annigonol mewn naw.

Fodd bynnag, gall y llu arddangos gwell arferion trwy'r camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion o'n harolygiad ym mis Ionawr. Mae hyn yn arbennig o amlwg pan mae'r llu'n cadw plant yn y ddalfa, yn rheoli'r rhai sy'n peri risg i blant, ac yn defnyddio pwerau amddiffyn yr heddlu.

Rydym yn cael ein calonogi gan y cynnydd a wnaed, ac yn hyderus o ymrwymiad parhaus y llu i wneud gwelliannau pellach.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Cyswllt cychwynnol

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell bod Heddlu Gwent yn gweithredu o fewn tri mis i sicrhau bod pryderon a barn plant yn cael eu sicrhau a'u cofnodi (gan gynnwys nodi eu hymddygiad a'u hymarweddiad), i helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir amdanynt.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llw wedi hyfforddi'r rhan fwyaf o'i swyddogion a'i staff ynghylch effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Yn ogystal, mae gweithdai yn helpu swyddogion a staff i ddeall pa wybodaeth y dylid ei chofnodi mewn PPNs, sy'n cynnwys pryderon plant, a'u hymddygiad a'u hymarweddiad.

Rydym wedi gweld rhai enghreifftiau o swyddogion yn dogfennu dymuniadau a phryderon plant yn glir, ac yna'n gwneud penderfyniadau yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddeall barn plant yn aml yn cael eu colli, neu ni chofnodir y safbwyntiau hynny.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llw wedi gwneud ymdrech fawr i hyfforddi ei swyddogion a'i staff

Trwy'r rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd, mae'r llw wedi hyfforddi 1,100 o swyddogion a staff i gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y gall trawma effeithio ar blant.

Ar adeg ein hymweliad, roedd y llw'n cynnal cyfres o weithdai i helpu swyddogion a staff i ddeall pa wybodaeth i'w chynnwys mewn PPNs.

Mae cymorth cof a chyfathrebu mewnol wedi cefnogi'r hyfforddiant

Mae'r llw wedi cynllunio cymorth cof sy'n crynhoi canllawiau PPN. Mae profforma hefyd wedi'i greu i'w gwblhau a'i ychwanegu at y PPN. Mae hyn yn cynnwys adran i gofnodi pryderon plant, a'u hymddygiad a'u hymarweddiad.

Defnyddir sesiynau briffio ar y fewnrwyd i atgyfnerthu'r negeseuon hyn. Defnyddir y sianel hon o gyfathrebu mewnol hefyd i annog swyddogion i ddefnyddio eu fideo a wisgir ar y corff.

Mae cyfleoedd i ddeall barn a phryderon plant yn dal i gael eu colli neu ddim yn cael eu cofnodi

Gwelsom rai enghreifftiau o swyddogion yn dogfennu dymuniadau a phryderon plant yn glir, ac yn cyfeirio at y rhain wrth wneud penderfyniadau, yn arbennig pan ddefnyddiwyd y profforma. Gwelsom hefyd ddefnydd da o fideo a wisgir ar y corff. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r achosion a archwiliwyd gennym, prin oedd y dystiolaeth bod swyddogion a staff yn siarad â phlant er mwyn deall eu profiadau bywyd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i wneud penderfyniadau.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Asesiad a help

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell bod Heddlu Gwent yn cynnal adolygiad ar unwaith, ynghyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill, er mwyn sicrhau bod y llu'n cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, fel y'i nodir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, mewn perthynas ag asesu risg, sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu, a datblygu cynlluniau amddiffynnol ar y cyd.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llu wedi gweithio ag asiantaethau perthnasol i greu hybiau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau mewn tair ardal awdurdod lleol. Mae hyn wedi gwella prydlondeb rhai trafodaethau strategaeth. Mae mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar hefyd wedi gwella mewn rhai meysydd.

Fodd bynnag, roedd ansawdd y wybodaeth yn y PPNs a welsom yn dal i fod yn amrywiol, ac nid oedd bob amser yn cael ei rhannu pryd y dylai fod. Gwelsom hefyd ychydig o oedi cyn cynnal trafodaethau strategaeth.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Bellach, adolygir penderfyniadau a wneir gan staff yn ystod trafodaethau strategaeth yn brydlon

Yn 2019, gwnaethom nodi, yn dilyn trafodaethau strategaeth, y dylai rhingyll adolygu pob penderfyniad pan gytunir ar ymateb gan un asiantaeth. Er enghraifft, pan na fyddai ymchwiliad troseddol er budd gorau'r plentyn. Fodd bynnag, gydag ôl-groniad o 700 o achosion, nid oedd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hadolygu tan ymhell ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae'r llu wedi gweithio'n galed i glirio'r ôl-groniad hwn. Bellach mae pob penderfyniad o'r fath yn cael ei adolygu'n brydlon, sy'n gyflawniad sylweddol.

Mae'r llu wedi gweithio gyda'i asiantaethau partner i greu hybiau wedi'u cydleoli mewn tair o'r pum ardal awdurdod lleol

Fe'n calonogwyd i weld bod y llu'n parhau i weithio gyda'i asiantaethau partner i wella'r ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu a sut mae'r wybodaeth honno'n cyfrannu at wella canlyniadau i blant.

Yng Nghasnewydd, Blaenau Gwent a Thorfaen, mae'r llu a gwasanaethau gofal cymdeithasol bellach yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd, gan rannu gwybodaeth a chynnal trafodaethau strategaeth wyneb yn wyneb. Mae uchelgais i fabwysiadu'r un dull yn y ddwy ardal awdurdod lleol sy'n weddill. Fodd bynnag, ym mhob un o'r tri hyb, mae gofal cymdeithasol plant fel arfer yn penderfynu fel un asiantaeth a oes angen trafodaeth strategaeth, yn seiliedig i raddau helaeth ar gynnwys y PPN. Yna mae'r rhingyll sy'n bresennol yn cyfrannu at y drafodaeth honno.

Mae ansawdd PPNs yn dal i fod yn amrywiadwy

Yn 2019, gwelsom fod swyddogion a staff wedi e-bostio PPN yn uniongyrchol at wasanaethau gofal cymdeithasol plant pan oedd ganddynt bryder am blentyn. Cymysg oedd ansawdd y ffurflenni hyn, gydag ychydig neu ddim ymchwil ynghylch amgylchiadau'r teulu.

Mae'r llu wedi cyflwyno proses i sicrhau bod cofnod digwyddiad yn aros ar agor nes bod goruchwyliwr wedi adolygu'r PPN. Bwriad hyn yw gwella ansawdd PPN. Trwy ein harchwiliadau gwelsom, pan ddefnyddir y profforma, fel y'i trafodwyd uchod, fod ansawdd y wybodaeth fel arfer o safon uchel. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o PPNs a welsom yn cynnwys y profforma. Roedd y rhain o ansawdd llawer is, hyd yn oed pan gawsant eu hadolygu gan oruchwyliwr. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth a anfonir at ofal cymdeithasol plant weithiau'n anghyflawn.

Nid yw rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhannu pryd y dylai fod

Mae swyddogion yn dal i e-bostio PPNs yn uniongyrchol at yr awdurdod lleol perthnasol. Gan fod ansawdd y PPNs yn amrywiadwy, mae hyn yn golygu bod gwybodaeth anghyflawn yn dal i gael ei rhannu, heb amgylchiadau teuluol perthnasol neu wybodaeth arall.

Gwelsom hefyd nad yw PPNs yn cael eu hanfon yn y modd y dylent fod yn rheolaidd. Mae staff yn uned atgyfeirio ganolog y llu (CRU) a'r hybiau yn cynnal chwiliad â llaw o'r holl PPNs sy'n ymwneud â phryderon plant. Yna maent yn gwirio gyda'u cydweithwyr gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod wedi'u derbyn. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o wallau wrth lenwi'r ffurflen a oedd yn golygu eu bod yn cael eu colli hyd yn oed ar ôl yr ail wiriad llafurus hwn.

Fe wnaethom barhau i weld oedi wrth gynnal rhai trafodaethau strategaeth

Pan fydd arnynt angen cyfraniad gan yr heddlu i drafodaeth strategaeth, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gwahodd rhingyll yr hyb. Mewn ardaloedd heb hyb, neu pan nad yw rhingyll yr hwb yn bresennol, mae staff y CRU yn cyfrannu at y cyfarfod. Mae'r CRU hefyd yn cyfrannu at gyfarfodydd strategaeth am blant sydd eisoes yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Mae trafodaethau strategaeth yn digwydd yn gyflym pan fydd yr angen yn amlwg ar frys. Fodd bynnag, gwelsom sawl enghraifft o oedi cyn cynnal trafodaethau o'r fath oherwydd diffyg adnoddau CRU neu oedi cyn i wasanaethau gofal cymdeithasol plant gysylltu â'r CRU.

Nid oes cytundeb ysgrifenedig rhwng yr asiantaethau partner sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir yn benodol gan yr hybiau. Byddai cywiro hyn yn helpu pob partner i ddeall yn well a yw'r hybiau'n diwallu anghenion plant sydd mewn perygl.

Mae mynediad da at wasanaethau cymorth cynnar mewn rhai ardaloedd

Yng Nghasnewydd, mae'r lluoedd awdurdod lleol wedi creu tîm ymyrraeth gynnar i helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau ataliol. Mae'r tîm hwn yn nodi achosion lle mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn penderfynu nad yw mater yr adroddir arno mewn PPN yn diwallu'r trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Mae aelodau'r tîm yn ffonio'r teulu ar yr un diwrnod i'w cyflwyno eu hunain. Maent yn dilyn i fyny gyda galwad 'beth sydd o bwys' o fewn dau ddiwrnod i ddeall eu hanghenion penodol yn well. Ar ôl hynny, efallai y bydd y tîm hefyd yn ymweld â'r teulu i roi cyngor.

Pan fydd pryder diogelu pellach yn amlwg, mae hyn yn cael ei uwchgyfeirio trwy system gyfrifiadurol gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyn wedi digwydd mewn 6 y cant yn unig o achosion.

Mae'r lluoedd ymwybodol o'r materion hyn ac yn cynnal adolygiad llawn

Cawsom ein sicrhau bod y lluoedd ymwybodol o'r holl faterion a godwyd gennym ac yn parhau i weithio gyda'i asiantaethau partner i'w datrys. Sicrhawyd cyllid ychwanegol i ymestyn contract arweinydd partneriaeth Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd, a oedd i fod i gwblhau adolygiad llawn o bob agwedd ar y rhaglen Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell bod Heddlu Gwent, o fewn tri mis, yn gwella arferion mewn achosion o blant sy'n mynd ar goll o'u cartref. Dylai hyn, o leiaf, gynnwys adolygiad o sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi, a gwneud staff yn fwy ymwybodol o:

- eu cyfrifoldebau dros amddiffyn plant yr adroddir eu bod ar goll o'u cartref, yn arbennig pan fydd hyn yn digwydd yn rheolaidd;
- pwysigrwydd ymchwilio i ble mae plentyn wedi bod, a gyda phwy; ac
- eu cyfrifoldebau dros gynnal a chofnodi cyfweiliadau atal¹ pan fydd plant yn dychwelyd adref.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r lluoedd dda o ran nodi'r risg i blant yr adroddir eu bod ar goll. Gwelsom rai enghreifftiau o waith rhagweithiol i ddod o hyd iddynt. Fodd bynnag, roedd yr ymateb i blant coll yn anghyson, gyda rhywfaint o oedi wrth gychwyn ymholiadau i ddod o hyd iddynt.

¹ Mae gan yr heddlu gyfrifoldeb i sicrhau bod y person sy'n dychwelyd yn ddiogel ac yn iach. Pwrpas y cyfweiliad atal yw nodi unrhyw risg neu ffactorau parhaus a allai gyfrannu at bosibilrwydd y bydd y person yn mynd ar goll eto.

Gwelsom hefyd na chynhelir trafodaethau strategaeth yn aml pan adroddir bod plant ar goll. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r llu i gyfrannu at gynllunio amddiffynnol tymor hwy.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llu'n parhau i wneud defnydd da o ymchwil i nodi risg

Trwy ein harchwiliadau achosion, gwnaethom barhau i weld bod y staff sy'n gweithio yn nhîm FPOC yn cynnal ymchwil drylwyr pan adroddir bod plentyn ar goll. Cydnabyddir risg ac mae'r ymateb fel arfer yn cael ei raddio'n briodol.

Gwelsom enghreifftiau o ymholiadau rhagweithiol i ddod o hyd i blant a thystiolaeth o adolygiadau goruchwylol da. Gwnaethom nodi y siaradwyd â rhai plant pan ddychwelon nhw er mwyn deall lle roeddent wedi bod, gyda phwy roeddent wedi bod ac a oeddent wedi bod yn agored i risg.

Gwelsom rai enghreifftiau o oedi wrth gychwyn ymholiadau i ddod o hyd i blant

Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau hefyd pan oedd gofynion anghyson yn golygu, er bod y risg wedi'i nodi, bod gweithgarwch i olrhain plant yn unol â'r risg honno wedi'i ohirio neu na ddigwyddodd o gwbl.

Mewn rhai achosion, roedd y manylion o gyfweiliadau atal (gwiriadau diogel ac iach) yn arwynebol neu'n absennol yn gyfan gwbl. Efallai fod hyn oherwydd nad oedd y plentyn wedi ymgysylltu â'r swyddog, ond, os felly, yn aml nid yw hynny yn cael ei gofnodi. Yn yr amgylchiadau hyn, mae cyfle o hyd i gofnodi llais y plentyn trwy ei ymarweddiad a'i ymddygiad.

Mae cyfleoedd i rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau amddiffynnol tymor hwy yn cael eu colli

Ychydig o dystiolaeth a welsom fod swyddogion yn cyflwyno PPNs i atgyfeirio achosion plant coll at ofal cymdeithasol plant. Mae'r tîm plant coll yn anfon rhestr o achosion plant coll ar gyfer plant preswyl i'r awdurdodau lleol yn rheolaidd, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi ysgogi trafodaethau strategaeth. Yn wir, yng Nghasnewydd, gofynnodd yr awdurdod lleol am roi'r gorau i dderbyn yr hysbysiadau hyn.

Gellid adrodd ar wybodaeth bwysig, gyfoethog trwy gyflwyno PPN. Gallai hynny gynnwys ble roedd y plentyn wedi bod a gyda phwy, a materion teuluol eraill sy'n effeithio ar eu hymddygiad. Byddai hyn yn caniatáu i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ddeall y risg yn well. Gallai'r llu hefyd ystyried yr angen am drafodaethau strategaeth i helpu i atal achosion plant coll yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn gyfle i archwilio unrhyw gysylltiadau â chamfanteisio neu gam-drin arall.

Mae archwiliadau'r llu ei hun wedi nodi themâu tebyg

Mae'r pennaeth diogelu'r cyhoedd wedi cynnwys plant yr adroddwyd eu bod ar goll fel un o'i themâu ar gyfer parhau ag archwiliadau. Yn y nifer gyfyngedig a gynhaliwyd, mae wedi nodi themâu tebyg i'r rhai a ganfuom. Rydym yn teimlo'n dawel ein meddwl felly bod y llu'n gwybod lle mae angen iddo wella yn y maes hwn a'i fod yn gweithio i wneud hynny.

Mae'r adolygiad cyfredol yn cynnwys y tîm plant coll

Ar hyn o bryd mae'r llu a'i asiantaethau partner diogelu yn adolygu rôl, safle a swyddogaethau tîm plant coll Gwent. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r dull system gyfan y soniwyd amdano uchod.

Roeddem yn falch o glywed y bydd cyllid yn parhau ar gyfer y gwasanaeth cyfweld ar gyfer dychwelyd adref, a ddarperir gan yr elusen Llamau. Ar yr adeg hon mewn achos, gall plant roi toreth o wybodaeth ynghylch pam eu bod yn rhedeg i ffwrdd, yn enwedig lle mae hyn yn dod yn amlach ac mae'r plentyn yn amharod i siarad â'r heddlu neu asiantaethau eraill.

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell, o fewn tri mis, y bydd Heddlu Gwent yn adolygu ei brosesau a'i arferion i sicrhau bod ei staff yn gallu dwyn ynghyd yr holl wybodaeth sydd ar gael o systemau'r heddlu er mwyn llywio eu hymatebion a'u hasesiadau risg yn well.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llu wedi dechrau gwneud defnydd gwell o Niche, system rheoli gwybodaeth sengl yr heddlu. Mae tîm Operation Quartz yn cadw cofnod digwyddiadau meistr ar gyfer rhai plant, sy'n crynhoi'r gweithgarwch diogelu cyfredol.

Gwelsom gofnodi gwell pan ddefnyddiwyd pwerau amddiffyn yr heddlu. Yn aml, cofnodwyd canlyniadau trafodaethau strategaeth yn glir.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae gwybodaeth ddiogelu fel arfer yn cael ei chofnodi'n glir pan fydd plant mewn perygl o ddioddef camfanteisio

Pan gredir bod plentyn mewn perygl o ddioddef camfanteisio, mae tîm Operation Quartz yn creu cofnod digwyddiadau meistr yng nghofnod Niche y plentyn. Mae hyn yn ei wneud yn llawer haws i swyddogion eraill ddeall y risg gyfredol i'r plant hynny yn gyflym. Mae'r cofnod yn crynhoi eu statws Operation Quartz cyfredol a'u statws gofal cymdeithasol ac unrhyw ddiweddariadau ymchwilio, gwybodaeth atgyfeirio amlasiantaethol a chofnodion o gyfarfodydd camfanteisio.

Gall y llu ymestyn y defnydd o gofnodion o'r fath i gynnwys plant eraill sydd mewn perygl.

Mae arferion cofnodi'n well ar y cyfan, ond mae angen rhai gwelliannau o hyd

Trwy gydol ein harchwiliadau achos, yn gyffredinol gwelsom welliannau yn y modd y mae'r llu'n cofnodi penderfyniadau, gweithgareddau ymchwilio a chanlyniadau cyfarfodydd. Roedd hyn yn amlwg yng nghofnodion y ddalfa, mewn dogfennaeth yn ymwneud â defnyddio pwerau amddiffyn yr heddlu, a phan gyflawnwyd troseddau gan droseddwyr a reolir.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd ansawdd y wybodaeth mewn adroddiadau PPN yn anghyson. Ac er i ni weld cynlluniau ymchwilio da ac adolygiadau da gan oruchwylwyr mewn llawer o ymchwiliadau, roedd cofnodi gweithgareddau diogelu yn dal i fod yn anghyson.

Mae'r llun dal i ddefnyddio'r ffurflen asesiad risg ar gyfer unigolion sydd ar goll (MIRAF). Cofnodir y rhain ar gronfa ddata ar wahân, ond mae hyn wedi dyddio ac yn anodd ei chwilio. Mae'r llun bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ffurflen a gwneud gwell defnydd o'r cofnod digwyddiadau meistr yn lle. O ganlyniad, bydd gan swyddogion a staff fynediad gwell at wybodaeth berthnasol gyfredol. Bydd hefyd yn ei wneud yn haws dadansoddi patrymau, tueddiadau a lleoliadau peryglus.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Ymchwiliad

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell, o fewn tri mis, y dylai Heddlu Gwent wella ei ymchwiliadau amddiffyn a chamfanteisio ar blant, gan roi sylw arbennig i:

- gwella ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff yn y maes gwaith hwn;
- gweithio gyda'i asiantaethau partner i sicrhau ymateb prydlon i unrhyw bryder a godir;
- gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei chofnodi fel ei bod yn hygyrch;
- gwella goruchwyliaeth a rheolaeth ar achosion; a
- gweithio gyda phartneriaid i wneud y defnydd gorau o gyfarfodydd amlasiantaethol.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Gwelsom enghreifftiau o ymchwiliadau da gyda thystiolaeth o weithio ar y cyd yn brydlon a ffocws ar ddiogelu yn ogystal â gweithgareddau ymchwilio. Roedd hyn fel arfer pan oedd ymchwilwyr arbenigol ym maes cam-drin plant yn gyfrifol am yr ymchwiliad.

Roedd safon yr ymchwiliadau yn waeth ar y cyfan pan gawson nhw eu cynnal gan bobl nad oeddent yn arbenigwyr.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llu'n sicrhau bod ei arbenigwyr yn derbyn yr hyfforddiant cywir

Mae'r llu wedi sicrhau bod y tîm sy'n gyfrifol am ymchwilio i gam-drin plant wedi'i staffio'n llawn o fewn y strwythur presennol. Mae pob aelod wedi cael hyfforddiant arbenigol ar gyfer ymchwilwyr cam-drin plant, neu maent yn aros amdano, fel sy'n wir am eu goruchwylwyr. Mae timau Operation Quartz yn cefnogi eu ymchwiliadau i gamfanteisio. Mae'r timau hyn hefyd wedi'u staffio'n llawn, gyda ditectif ringyll penodedig ac, yng Nghasnewydd, cefnogaeth gan swyddogion ymateb ar secondiad.

Mae timau Operation Quartz wedi symud eu ffocws i gynnwys ymchwilio i droseddwyr a throseddau ynghyd â chefnogaeth i ddioddefwyr. Mae aelodau'r tîm yn mynychu trafodaethau strategaeth ym maes camfanteisio, ac mae arbenigwyr yn cynnal y broses o ymchwilio i droseddau camfanteisio.

Mae ymchwiliadau a wneir gan swyddogion arbenigol fel arfer yn dda

Mae safon yr ymchwiliadau yn parhau i fod yn anghyson. Mae rhai'n cael eu rheoli'n dda a'u goruchwyllo'n briodol. Mae'r ymchwiliadau gwell yn dangos gweithio ar y cyd, gydag ystyriaethau ymchwilio a diogelu wedi'u nodi'n glir ac yn cael sylw. Gwelsom rai trafodaethau strategaeth prydlon a arweiniodd at weithio ar y cyd a gweithgarwch ymchwilio prydlon. Gwelsom hefyd gynlluniau ymchwilio clir a thystiolaeth o adolygiadau a chefnogaeth oruchwyliol rheolaidd. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn cael eu cynnal gan arbenigwyr ym maes amddiffyn plant.

Ffoniodd mamau merched 12 a 13 oed yr heddlu i riportio bod eu merched wedi cael eu treisio gan fachgen 13 oed. Trefnwyd swyddog a hyfforddwyd yn arbennig yn brydlon, a chynhaliwyd trafodaethau strategaeth am yr holl blant. Rhoddwyd mesurau diogelwch ar waith ar gyfer y tri ohonynt, a rhoddwyd ystyriaeth i'r risg yr oedd y bachgen yn ei pheri i eraill.

Cytunwyd ar ymchwiliad ar y cyd gan swyddogion heddlu arbenigol a gweithwyr cymdeithasol. Defnyddiwyd cyfryngwr i helpu i gyfathrebu yn ystod cyfweiliadau gyda'r merched. Cofnodwyd eu barn a'u pryderon yn glir.

Roedd ditectif ringyll yn adolygu'r achos yn rheolaidd ac roedd cynnydd yr ymchwiliad hefyd wedi'i gofnodi'n dda. Cwblhawyd yr achos yn brydlon.

Pan fydd troseddau'n cael eu hymchwilio gan rai nad ydynt yn arbenigwyr, mae'r safon yn aml yn is

Mewn rhai achosion, prin oedd yr ystyriaeth na'r ymchwilio i risgiau diogelu ehangach, yn arbennig y risg y mae troseddwr yn ei pheri i eraill nad oeddent yn destun yr adroddiad gwreiddiol.

Gwelsom gyfleoedd yn cael eu colli i archwilio dyfeisiau a oedd yn debygol o gynnwys tystiolaeth werthfawr, ac oedi wrth ymweld â dioddefwyr.

Dywedodd ffrind teulu wrth yr heddlu fod merch 16 oed yn cael ei pharatoi i bwrpas rhyw gan ddyn 55 oed yn defnyddio Facebook. Roedd wedi gofyn iddi gwrdd am ryw. Dywedodd y ferch wrtho mai dim ond 12 oed oedd hi, ond ni chafodd ei anghymell.

Defnyddiwyd swyddogion yn brydlon. Fe wnaethant dynnu sgrinluniau o'r negeseuon, ond ni wnaethant ymafael yn ffôn y ferch i'w harchwilio ymhellach. Roedd yn amlwg bod gan y troseddwr 'ffrindiau' eraill ar Facebook a oedd yn ymddangos fel merched ysgol.

Cafodd y dyn ei adnabod a chanfuwyd bod ganddo euogfarn am dreisio plentyn.

Cyflwynwyd PPN, ond ni welsom unrhyw dystiolaeth o drafodaeth strategaeth na chydweithio. Fe wnaeth swyddogion nad oeddent yn arbenigwyr ar gam-drin plant gynnal yr ymchwiliad.

Arestiodd y troseddwr, ac ymafaelwyd yn ei ddyfeisiau. Gwnaeth rai cyfaddefiadau, ond rhyddhaodd yr heddlu ef dan ymchwiliad, yn hytrach na defnyddio amodau mechnïaeth i liniaru'r risg yr oedd yn ei pheri i blant.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod ymholiadau pellach wedi'u cynnal ynghylch plant eraill y gallai fod wedi cysylltu â nhw neu wedi cael mynediad atynt.

Bu oedi yn yr ymchwiliad a gwnaethom ofyn i'r llu adolygu ei arfer yn yr achos hwn.

Mae oedi diangen wrth ymweld â phlant sydd mewn perygl

Gwelsom rywfaint o oedi wrth gynnal trafodaethau strategaeth ac wrth ymweld â phlant ar y cyd. Gwelsom dri achos lle cytunwyd bod angen ymchwiliad ar y cyd ac y dylai'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ymweld â'r plant gyda'i gilydd. Ond dyrannwyd yr ymweliadau i swyddogion ymateb neu swyddogion cymdogaeth, yn hytrach na staff amddiffyn arbenigol. Mewn un achos, gosodwyd yr ymweliad mewn system ddyddiadur, ond ni welwyd y plant mewn perygl am wythnos.

Cytunir ar ymchwiliad ar y cyd pan gredir bod plant yn dioddef neu mewn perygl o niwed sylweddol. Felly mae swyddogion yn cael eu defnyddio i gynnal ymweliadau arbenigol ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol pan nad oes ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Mae hyn yn golygu y gallai arwyddion o gam-drin arall, megis esgeulustod neu anaf damweiniol, gael eu camddeall neu eu colli yn gyfan gwbl. Dywedwyd wrthym fod hyn yn arfer cyffredin pan fyddai'r tramgwydd troseddol canfyddedig y tu allan i gyfrifoldeb y PPU i ymchwilio.

Mewn achos arall a welsom, roedd tramgwyddwr yn cael ei amau o droseddau rhywiol yn erbyn dau blentyn. Dyrannwyd y drosedd yn erbyn y plentyn iau i'r PPU i'w ymchwilio. Dyrannwyd yr achos arall i'r adran ymchwilio troseddol (CID) i ddechrau, yna i swyddogion ymateb. Unwaith eto, achosodd hyn oedi diangen ac o bosibl ganlyniad gwaeth i'r plentyn.

Mae'r llu wedi cymryd rhai camau i wella, ond mae angen iddo wneud mwy

Mae swyddogion sydd wedi'u hyfforddi ym maes cyfweld plant ar fideo bellach yn gweithio ochr yn ochr ag ymchwilyr arbenigol ym maes cam-drin plant am fis er mwyn ennill profiad pellach a datblygu eu profiad. Mae rheolwyr PPU hefyd wedi mynychu diwrnodau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o faterion amddiffyn plant ymhlith rhingylliaid rheng flaen. Fodd bynnag, mae angen i'r llu wneud mwy i sicrhau bod ymchwiliadau amddiffyn plant yn cael eu dyrannu i'r swyddogion hynny sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd i'w cynnal yn dda.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Gwneud penderfyniadau

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell, o fewn tri mis, y bydd Heddlu Gwent yn gweithio gyda'i asiantaethau partner i sicrhau bod plant yn cael eu cludo i fannau diogel priodol pan ddefnyddir pwerau amddiffyn yr heddlu. Dylai'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chofnodi'n briodol a chael ei gwneud yn hygyrch ym mhob achos lle mae pryderon ynghylch lles plant. Dylai'r canllawiau i staff gynnwys:

- pa wybodaeth y dylent ei chofnodi (ac ar ba ffurf) ar eu systemau er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau da; a
- phwyslais ar bwysigrwydd sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwneud yn brydlon ac ar eu cadw'n gyfoes.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae gwell TG a hyfforddiant i swyddogion a staff wedi arwain at welliant sylweddol wrth gofnodi'r defnydd o bwerau amddiffyn yr heddlu. Roedd rhesymeg gychwynnol swyddogion dynodedig, adolygiadau rheolaidd o'r defnydd o'r pŵer, a throsglwyddo cyfrifoldebau i gydweithwyr i gyd yn amlwg.

Mae'r llw hefyd wedi sicrhau nad yw plant yn cael eu cludo i orsaf heddlu pan ddefnyddir y pwerau hynny.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae gwell TG a hyfforddiant wedi arwain at welliant sylweddol mewn cofnodi

Ers amser ein harolygiad, mae'r llw wedi bod yn defnyddio ffurflen Niche newydd i gofnodi'r defnydd o bwerau amddiffyn yr heddlu yn well. Pan gyflwynwyd y ffurflen, derbyniodd pob arolygydd hyfforddiant ychwanegol ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt gan y llw pan ydynt yn ystyried neu'n defnyddio'r pwerau.

Mae ein harchwiliadau yn dangos bod swyddogion a staff yn deall y pwerau'n dda. Dangosodd y tri archwiliad safon cofnodi dda. Defnyddiwyd y pwerau yn briodol, ac adolygwyd eu defnydd yn rheolaidd.

Roedd tystiolaeth dda bod swyddogion dynodedig yn trosglwyddo cyfrifoldeb i'w cydweithwyr ar ddiwedd eu sifft.

Gwelsom gydweithio da gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant

Gwnaethom archwilio achosion a oedd yn dangos bod swyddogion wedi cysylltu'n brydlon â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ni aethpwyd â phlant i orsafoedd heddlu, a dechreuodd cynllunio amddiffynnol tymor hwy yn gynharach.

Cofnodwyd cynllunio tymor hwy yng nghofnodion Niche. Felly, gall swyddogion sy'n mynychu digwyddiadau dilynol fod yn glir ynghylch amgylchiadau teulu plentyn a chael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau da ar gyfer y plentyn hwnnw.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Rheoli'r rhai sy'n peri risg i blant

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell bod Heddlu Gwent, o fewn tri mis, yn gweithredu i wella ei reolaeth o droseddwy'r rhyw cofrestredig, gan roi sylw arbennig i:

- sut mae'n delio â'r troseddwy'r hynny nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion hysbysu; a
- sut mae'n ymgysylltu ag asiantaethau partner i amddiffyn plant sydd mewn perygl rhag troseddwy'r a reolir.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae gwell adroddiadau am ddata perfformiad a chyfarfodydd rheoli dyddiol yn gwella arfer. Mae hyn yn cynnwys cofnodi ac ymchwilio i droseddau hysbysu. Gwelsom rywfaint o weithio da ar y cyd gyda'r gwasanaeth prawf a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i liniaru risg i blant.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae gwell adrodd ar ddata perfformiad yn darparu gwell goruchwyliaeth gan reolwyr

Ers ein harolygiad yn 2019, mae'r llu wedi adolygu'r wybodaeth berfformiad sydd ar gael i reolwyr. Cynhyrchir adroddiad data manwl am berfformiad y tîm yn fisol. Mae'n galonogol bod hyn yn cynnwys gwybodaeth am droseddwy'r sy'n torri gorchmynion llys a gofynion hysbysu. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu â thimau cymdogaeth. Mae hyn yn arddangos gwaith parhaus y llu i wella faint o wybodaeth y mae'n ei chael gan staff rheng flaen.

Mae'r arolygydd sy'n arwain y tîm bellach yn cynnal cyfarfod rheoli dyddiol gyda'i staff a chynrychiolydd o'r gwasanaeth prawf. Mae hyn yn darparu gwell goruchwyliaeth a dealltwriaeth o ofynion ynghylch llwythi gwaith. Mae asesiadau risg rheolaidd o droseddwy'r yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni cytunedig. Cwblhawyd ymweliadau rheolaidd a phrydlon â throseddwy'r i fonitro eu lefel risg hefyd.

Mae troseddau hysbysu yn cael eu cofnodi a'u hymchwilio'n rheolaidd, ond mae rhai'n cael eu methu

Yn 2019, canfuom mai anaml y byddai troseddau hysbysu yn cael eu cofnodi na'u dilyn. Roedd hyn yn golygu nad oedd risg, patrymau troseddu a chydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol troseddwr yn cael eu deall yn dda. Gwelsom hefyd nad oedd troseddwr yn aml yn mynychu'r orsaf heddlu i gofrestru, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Trwy ein harchwiliadau achosion yn ein hailymweliad, gwelsom arfer gwell. Bellach mae toriadau ar droseddau hysbysu fel arfer yn cael eu dilyn gyda gweithgarwch priodol i'w cofnodi a'u hymchwilio. Fodd bynnag, er bod arfer cyffredinol yn dda ar y cyfan, gwelsom rai enghreifftiau lle na chofnodwyd troseddau, neu yr ymdriniwyd â hwy heb ymchwiliad digonol.

Mae'r data perfformiad a adroddir i reolwyr yn cynnwys y troseddau hynny sy'n cael eu cofnodi'n gywir yn unig. Felly, mae angen i'r llu wneud mwy i sicrhau bod pob trosedd yn cael ei chofnodi pan ddônt i'r amlwg.

Mae'n ymddangos bod rheolwyr troseddwr yn gweithio'n well ag asiantaethau eraill i ddiogelu plant

Gwelsom enghreifftiau o waith da ar y cyd ag asiantaethau partner, gan gynnwys gwasanaethau prawf a gofal cymdeithasol plant, i ddeall risg ac i ddiogelu plant. Mae rheolwyr troseddwr bellach yn well o ran dilyn i fyny gyda gofal cymdeithasol plant ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch cyflwyno adroddiadau PPN.

Gwelsom hefyd enghreifftiau o reolwyr troseddwr yn dilyn adroddiadau gyda galwadau ffôn i weithwyr cymdeithasol fel y gallent dawelu eu meddwl bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi enghreifftiau eraill pan y dylai hyn fod wedi'i wneud yn gynt.

Canfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad: Cadw gan yr heddlu

Argymhelliad o adroddiad arolygiad 2019

Rydym yn argymhell, ar unwaith, y dylai Heddlu Gwent gynnal adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a sefydliadau perthnasol eraill) o sut maent yn rheoli'r modd cadw plant. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys, o leiaf, y ffordd orau o:

- sicrhau bod plant yn cael eu cadw pan fydd angen yn unig, ac am yr isafswm llwyr o amser;
- sicrhau bod oedolion priodol yn mynychu'r orsaf heddlu yn brydlon;
- sicrhau bod swyddogion yn ystyried anghenion y plentyn ac yn atgyfeirio at ofal cymdeithasol plant pan fydd angen;
- sicrhau bod swyddogion y ddalfa yn gwybod o dan ba amgylchiadau y mae angen llety amgen neu ddiogel;
- asesu, yn gynnar, yr angen am lety amgen (diogel neu fel arall) a gweithio gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gyflawni'r opsiwn gorau i'r plentyn; a
- pan na ellir dod o hyd i lety amgen, dylid uwchgyfeirio'r mater er mwyn ceisio datrysiaid.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ar ôl yr arolygiad

Gwelsom welliannau sylweddol yn y ffordd y mae'r llu'n delio â phlant sy'n cael eu cadw. Mae swyddogion dalfa, staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol. Gwelsom fod yr amgylchiadau pan ddylid gofyn am lety amgen yn cael eu deall.

Roedd presenoldeb priodol gan oedolion yn well, ac roedd y llu'n well o ran rhannu ei bryderon diogelu ynghylch plant sy'n cael eu cadw gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ar ôl yr arolygiad

Mae'r llu wedi cymryd camau i wneud cadw yn llai trawmatig i blant

Mae dwy ystafell ddalfa yn cael eu defnyddio yng Ngwent, sef Casnewydd ac Ystrad Mynach. Yn Ystrad Mynach, mae ystafell ar wahân bellach yn cael ei defnyddio i gofrestru plant. Yng Nghasnewydd, nid yw'r cyfleuster hwn ar gael, felly mae oedolion sy'n cael eu cadw yn cael eu cadw i ffwrdd o'r ardal gofrestru tra bod plant yno. Bellach mae pob plentyn yn derbyn pamffled sy'n gwneud eu hawliau'n hawdd iddynt eu deall.

Lle bynnag y bo modd, mae plant yn cael eu cadw mewn celloedd i ffwrdd o oedolion sy'n cael eu cadw. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod dyluniad yr ystafelloedd dalfa yn golygu y byddai gwelliannau pellach yn peri problemau.

Mae'r llu wedi darparu hyfforddiant ychwanegol i swyddogion a staff y ddalfa

Mae'r llu wedi gwella hyfforddiant ar gyfer staff y ddalfa, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel bod materion diogelu ehangach yn cael eu cydnabod a'u riportio.

Mae hyfforddiant ar gyfer rhingylliaid y ddalfa bellach yn cynnwys deall pryd mae arestio yn hollol angenrheidiol yn achos plant. Mae hefyd wedi rhoi gwell dealltwriaeth i swyddogion y ddalfa ynghylch pryd mae angen llety amgen. Mae'n ddangosydd cryf o lwyddiant bod y llu wedi cadw un plentyn yn unig ar ôl cyhuddo yn y tri mis cyn ein hymweliad.

Mae'r llu'n well o ran asesu anghenion lles plant yn y ddalfa

Dylai pob plentyn sy'n mynd i'r ddalfa bellach gael gwiriad iechyd a lles gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi derbyn hyfforddiant am yr angen i gyflwyno PPN os ydynt yn darganfod pryder ynghylch diogelu. Mae'r llu bellach yn disgwyl i PPN gael ei gwblhau ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei ddwyn i'r ddalfa.

Mae gan y llu ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n digwydd i blant sy'n mynd i'r ddalfa a'u canlyniadau

Mae fframwaith perfformiad cynhwysfawr y llu'n cynnwys dadansoddiad o oedran, rhywedd ac ethnigrwydd y plentyn, a faint o amser y mae'n ei dreulio yn y ddalfa. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch a gawsant eu cadw dros nos neu a wnaethon nhw fynychu'r orsaf yn wirfoddol.

Yn ogystal, mae'r data hwn yn caniatáu i'r heddlu fonitro'r plant hynny y gwrthodwyd iddynt gael eu cadw, yn ogystal ag a yw PPNs yn cael eu cyflwyno, p'un a yw swyddogion y ddalfa'n cofnodi cyswllt ag oedolion priodol, a chanlyniad presenoldeb yr oedolyn hwnnw.

Mae'r llu wedi gweithio gydag asiantaethau eraill i wella triniaeth plant

Nod panel monitro ac adolygu misol ar gyfer plant sy'n cael eu cadw, wedi'i greu gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig, yw gweithio gyda'i gilydd i ddeall pryderon pawb. Mae wedi trafod materion megis presenoldeb prydlon oedolion priodol yn ystafelloedd y ddalfa.

O ganlyniad, mae'r llu a'r gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS) wedi cytuno ar brotocol newydd. Ar yr adeg pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael ei gadw, mae'r YOS yn anfon oedolyn priodol i fod yn bresennol. Maent yn mynychu eto trwy gydol cyfnod cadw'r plentyn ar gyfer cyfweiliadau a gweithdrefnau eraill yn ôl yr angen. Os oes pryderon lles ynghylch plentyn, mae'r YOS ar gael i siarad â'r plentyn dros y ffôn.

Weithiau mae oedi cyn bod oedolion priodol yn mynychu

Dywedwyd wrthym fod y protocol newydd yn gweithio'n dda pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gwelsom oedi diangen o ran presenoldeb pan fydd yr oedolyn priodol yn aelod o'r teulu neu'n ofalwr.

Weithiau, mae eu presenoldeb yn dal i gael ei drefnu i gyd-fynd â digwyddiadau fel cyfweiliadau, oriau lawer ar ôl awdurdodi'r cadw. Mae hyn yn atal cymorth cynnar ar gyfer anghenion, hawliau a lles y plentyn. Gwelsom oedi hefyd pan oedd anghydfod ynghylch a ddylai cynrychiolydd YOS neu rywun arall fynychu fel yr oedolyn priodol.

Mae gweithgarwch archwilio yn canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfio â'r broses yn hytrach nag ansawdd yr arfer

Mae'n gadarnhaol bod y llu'n cynnal archwiliadau rheolaidd o'i arfer pan mae plentyn yn cael ei gadw. Fodd bynnag, mae hyn yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'r broses, megis a yw PPN wedi'i gyflwyno, yn hytrach nag ar ansawdd. O ganlyniad, er bod PPNs bellach yn cael eu cyflwyno fel mater o drefn pan mae plentyn yn cael ei gadw, mae ansawdd eu gwybodaeth yn parhau i fod yn anghyson.

Dangosodd ein harchwiliadau achosion fod adolygiadau arolygwyr y ddalfa o gadw yn amserol, ond yn aml fe'u cynhaliwyd dros y ffôn. Nid oedd y rhai a oedd yn cynnal yr adolygiadau yn cydnabod oedi ym mhresenoldeb oedolion priodol ychwaith.

Camau nesaf

Fe fu ffocws, ac mae'n parhau i fod, ar faterion amddiffyn plant ar lefel strategol yn Heddlu Gwent. Mae hyn yn cynnwys ei waith parhaus i ddatblygu trefniadau diogelu mewn partneriaeth ledled Gwent ac i ymateb i'n hargymhellion ar gyfer 2019. Mae'r llun mireinio ac yn gwella ei ymateb i amddiffyn plant sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl.

Er bod angen gwelliannau o hyd mewn rhai meysydd, fe fu camau pwysig tuag at fynd i'r afael â'n hargymhellion.

Bellach mae angen i'r llun ddod yn fwy cyson yn ei arferion a pharhau â'r gwaith sicrwydd mae wedi'i ddechrau gyda'i archwiliadau. Bydd hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arno i ddeall yr effaith y mae ei ffyrdd o weithio yn ei chael ar blant sydd angen help a chefnogaeth.

Gorffennaf 2020 | © HMICFRS 2020

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs